CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 27ain o Awst 2025 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Wyn Lewis, Rhys Davies, John P Roberts, Arfon Hughes, Idris Jones, Catrin Jones Johnson, a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Berwyn Harding a Sion Alun Roberts.

   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda. Nododd Cyng Catrin Jones Johnson ddiddordeb yn eitem 6b – sef taliad anfoneb A Johnson am dorri gwair.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a** gynhaliwyd ar y 9fed o Orffennaf - nodwyd mai Cyng Rhys Davies oedd wedi eilio cywirdeb cofnodion y Cyfarfod Blynyddol dyddiedig 14eg o Fai, a gyda'r cywiriad yma, cadarnhawyd gofnodion cyfarfod 9.07.25 ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Priffyrdd a Chefnffyrdd ers y tro diwethaf. Yng nghyswllt torri gor-dyfiant ger Penybont, nodwyd fod y gwaith wedi ei wneud gan y perchnogion, ag eithrio tir sy'n perthyn i dy Fire Cat gerllaw.

b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** nodwyd fod y trafod yn parhau gyda'r Eglwys yng Nghymru.

c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd datblygiadau.

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – darllenwyd unwaith eto ymateb Gethin Vaughan Jones o Gyngor Gwynedd ynglyn a gwneud Is-Brydles ar gyfer y tir dan sylw dros 7 mlynedd. Byddai'r gost i'r Cyngor oddeutu £1800 yn y lle cyntaf. Gwelwyd fod hwn yn benderfyniad pwysig i'r Cyngor Cymuned, ac nad oedd y gost yma yn y gyllideb am eleni. Hefyd, byddai yn gost a chyfrifoldeb mawr i'r Cyngor i'r dyfodol, gan gynnwys cost yswiriant, ac roedd yn bwysig fod pawb yn bresennol i gytuno i hyn. Penderfynwyd gadael hyn unwaith eto tan y cyfarfod nesaf cyn gwneud penderfyniad ar sut i symud ymlaen.

e) **Torri gwair mynwentydd** – yn dilyn y trafod y tro diwethaf, roedd y Clerc wedi cadarnhau y sefyllfa i bawb mewn e-bost dyddiedig 17.07.25. Byddai Gareth Wyn Davies yn fodlon gwneud y gwaith yn y 3 mynwent, (torri a chlirio gwair oddiyno) yn ystod mis Medi – a gwelwyd y dylid gofyn a oedd modd gwneud mor fuan a phosib, ac erbyn tua canol mis Medi. Byddai rhaid hysbysebu am gontractwr o'r newydd ar gyfer 2026. Diolchwyd unwaith yn rhagor i Andrew Johnson am wneud gwaith hynod daclus, a ynghyd a llenwi'r bwlch yn dilyn methiant Tegid i wneud y gwaith yn Mallwyd a Llanymawddwy eleni. Cynigiodd Cyng Rhys Davies y byddai yn torri gwrych mynwent Llanymawddwy ym mis Medi eleni yn unig, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

f) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nodwyd nad oedd gohebiaeth pellach gan Stuart England. Yng nghyswllt rhoi tarmac ar y darn bach o flaen y gofgolofn (a oedd hefyd wedi ei drafod yng nghyswllt grant 'Gwynedd Ni') roedd Cyng John P Jones wedi trafod gyda chwmni Trebor Evans, Brithdir, a byddai y gost oddeutu £400.

g) ) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyriwyd y diweddaraf gan nodi cyfarfod arbennig ar yr 19eg o Fehefin, y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf 9.07.25, ac e-bost pellach i bawb 29.07.25 yng nghyswllt cynnig ychwanegol o £2500, a'r cynnig ffurfiol a ddanfonwyd i'r Cynghorwyr 15.08.25.

Cadarnhawyd y gwahanol rannau o'r gwaith, sef 1) 4 planter blodau £890, 2) 2 fwrdd picnic £880, 3) cost blodau £157, 4) 5 mainc £1825, 5) dylunio panel gwybodaeth £180, 6) ffram panel £664.90, 7) Codi bwrdd gwybodaeth £200 8) Gwaith yn yr hen fynwent £2700**. (cyfanswm £7496.90)** Cytunodd pawb gyda'r ffigurau.

Diolchwyd eto i Cyng Arfon Hughes, Cyng John P Jones a Cyng Wyn Lewis am eu gwaith, a byddent yn mynd ymlaen i gychwyn y gwaith/archebu. Cadarnhodd y Clerc y byddai modd cael rhannau o'r grant wedi eu hawlio yn dilyn cael y dderbyneb.

h) **Cais i gladdu llwch yn yr hen fynwent yn Mallwyd (mynwent yr Eglwys)** - nodwyd gohebiaeth i law gan Karen Talbot yn gofyn caniatad i chwalu llwch ei diweddar fam Bridie Owen, a'i thad Derek Owen ( a fu farw yn ddiweddar) ym mynwent Mallwyd o dan un o'r coed yno – yn ol eu dymuniad. Roedd hyn wedi ei ohirio ers y cyfarfod diwethaf. Yn dilyn trafodaeth faith, penderfynwyd, ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Catrin Johnson, nad oedd lle yno i gladdu gweddillion o'r amlosgfa, ac y dylid gwneud cais drwy'r Eglwys i'r fynwent newydd ym Mallwyd. Nodwyd fod rhaid ystyried mynwent yr Eglwys wedi cau ar gyfer unrhyw gladdu llwch i'r dyfodol. Hefyd, byddai caniatau hyn yn gosod cynsail i geisiadau tebyg i'r dyfodol, ac na allai hyn gael ei ganiatau gan y Cyngor Cymuned

i) **Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell –** darllenwyd yn llawn e bost gan Gavin Roberts o'r Parc Cenedlaethol o'r 14eg Gorffennaf. Hefyd ymateb Alun Evans, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd, a oedd yn dweud fod angen gwybodaeth pa drigolion sydd wedi dod a hyn i sylw er mwyn cysylltu a hwy yn uniongyrchol. Gwelwyd fod rhaid cysylltu gyda Cyng Berwyn Harding ynglyn a hyn, a thrafod eto.

5. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

**6.Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon,** (27.08.25), sef Cyfri Cyfredol £7854.46, Cyfri Claddedigaeth £1502.79 Cyfri Cadw £793.92. Roedd £971 i law i'r cyfrif claddu gan gwmni Geraint Peate yn ail-agor bedd ym mynwent Llanymawddwy ir diweddar Betty Williams Plas y Bont.

   Roedd nodyn i law yn cadarnhau y byddai ail ran y praesept yn cael ei dalu o fewn y dyddiau nesaf, sef £6550.

   Roedd £97.42 i law gan Scotish Power am bolion Dolybont yn ol yr arfer.

b) **Anfonebau i'w talu** - ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Arfon Hughes, cytunwyd i'r canlynol;

**A Johnson** – torri gwair (ail-doriad) mynwentydd Mallwyd, Llanymawddwy a Dinas - £900.00

**Anfoneb Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd am 2024/25** - £390

c ) **Ceisiadau am arian** – ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Arfon Hughes, cytunwyd i beidio cyfrannu i **Cerebral Palsy Cymru**.

**7.Gohebiaeth.**

a) Nodwyd **Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru** a oedd wedi ei cylchredeg.

**b)** Nodwyd gohebiaeth gan Cyngor Gwynedd ynglyn a bwriad i roi gwyriad parhaol i lwybr cyhoeddus Rhif 25 yng Nghymuned Aberangell a oedd wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad.

**c)** Nodwyd gohebiaeth e-bost gan Susan Evans o Aberystwyth parthed beddi milwyr yn hen fynwent Dinas Mawddwy (Commonwealth War Graves) Roedd yn cwyno am gyflwr yr hen fynwent o ran gor-dyfiant. Adroddodd y Clerc am ohebiaeth flaenorol yn Mehefin 2024 yn nodi mai dwy fedd oedd gan y CWGC, sef un ym mynwent newydd Dinas, ac un ym mynwent yr Eglwys ym Mallwyd. Penderfynwyd danfon i ddweud fod y gwaith i glirio rhedyn yr hen fynwent mewn llaw, ond nad oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned mewn gwirionedd.

Yn y cyswllt yma, trafodwyd yn faith y cyfrifoldeb am yr hen fynwent, a bod angen symud ymlaen gyda hyn. Adroddodd Cyng Arfon Hughes ei fod wedi trafod gyda Nansi Thirsk, Cyfriethwraig gyda Guthrie Jones & Jones. Awgrymodd y dylai y Cyngor Cymuned ddod yn 'gleient' i weithredu gyda hyn, ac mynd ymlaen i sefydlu ymddiriedolwyr newydd i gymryd lle Mr Gwilym Edwards a oedd yn dymuno sefyll i lawr o'r cyfrifoldeb yma. Adroddwyd fod tua £3000 mewn cyfri banc gan yr ymddiriedolwyr presennol, a bod yr arian yma ar gael ar gyfer cychwyn y broses. Gofynnwyd pwy fyddai a didordeb dod yn ymddiriedolwr gyda hyn, a nodwyd nad oedd neb o Gapel Ebeneser gyda diddordeb. Dywedodd y Cyng Arfon Hughes ei fod yn ymwybodol o unigolion a fyddai yn fodlon dod ymlaen fel ymddiriedolwyr.

Gwelwyd fod hwn yn benderfyniad pwysig i Gynghorwyr Cymuned Mawddwy, ac i fod yn gyfansoddiadol gywir, dylai fod ar yr agenda y tro nesaf, a bod angen pawb yn bresennol i wneud y penderfyniad. Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Nansi Thirsk i gael gwybod beth yw oblygiadau bod yn 'gleient' yn yr achos yma, a beth fyddai'r gost a'r broses.

**d)** Nodwyd prosiect Dawns Dolgellau a oedd wedi ei rannu i'r Cynghorwyr eisoes.

**e)** Nodwyd manylion Gwyl Fach Eryri ar 27 Medi yn Ty Siams, Dolgellau, a byddai'r Clerc yn rhoi poster ar hysbysfwrdd y Neuadd yn Dinas.

**f)** Nodwyd ohebiaeth Dr Lucy Baker ynglyn a holiadur defnydd mannau Gwledig ayyb, a byddai'r Clerc yn dosbarthu.

**g)** Nodwyd e-bost Ieuan Wyn yn copio ei ohebiaeth i Dr Mark Drakeford, a byddai'r Clerc yn dosbarthu.

**h)** Nodwyd ohebiaeth Deb Critchley yn cyflwyn ei hun fel swyddog ymgysylltu newydd elusen Tenovus.

i) Darllenwyd e bost gan Deulu Ty'n Braich ynglyn a gwaith tario ffordd i Dy'n y Braich, ac na thariwyd y ffordd o'r bont i fynny, ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi cywiro'r map. Roedd cais wedi ei wneud i ddanfon y map i Glerc y

Cyngor Cymuned, ond nid oedd wedi ei dderbyn hyd yma. Byddai rhaid trafod y tro nesaf.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Roedd angen trwsio mainc yn Dolybont ac un cornel stryd Dinas, ac addawodd Cyng Idris Jones wneud hyn, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

b) Roedd angen arwydd gan Gyngor Gwynedd i gyfeirio pobl i'r maes parcio yn y Plas yn Dinas, gan fod ceir yn parcio ar y man troi. Hefyd roedd angen atgoffa ADRA nad oedd modd parcio ar y man troi.

c) Roedd angen trafod y fainc ar rhiw Landrin, nad oedd yn cael ei defnyddio. Gwelwyd fod rhaid rhoi hyn ar agenda y cyfarfod nesaf, a chyfle i drafod yn llawn ymhle i roi y meinciau newydd ddaw yn dilyn y cais llwyddiannus i'r cynllun grant 'Gwynedd Ni'

d) Roedd angen gwaith tacluso ar yr arhosfan bws yn Dinas a Mallwyd, a gofynnwyd a allai 'Tim tacluso ardal ni' Cyngor Gwynedd ymdrin a hyn.

e) Roedd angen amserlen bws o'r newydd ger yr arhosfan yn Dinas.

f) Roedd tyllau ar y ffordd o Aberangell i Aberllefenni – sef oddiar ty Esgair Ucha.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 8fed Hydref 2025 , 7.30 y.h.**